OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 567

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

## RHAN 10

## Datblygiad Anawdurdodedig

### Apêl i Weinidogion Cymru heb farn sgrinio neu gyfarwyddyd sgrinio

**48.**—(1) Pan ymddengys i Weinidogion Cymru wrth ystyried apêl o dan adran 174 o Ddeddf 1990 bod y materion yr honnir eu bod yn golygu torri rheol gynllunio yn ddatblygiad Atodlen 1 neu'n cynnwys datblygiad Atodlen 1, neu'n ddatblygiad Atodlen 2 neu'n cynnwys datblygiad Atodlen 2, rhaid iddynt wneud cyfarwyddyd sgrinio cyn y cyflwynir unrhyw hysbysiad yn unol â rheoliad 49.

(2) Pan fo arolygydd yn ymdrin ag apêl o dan adran 174 o Ddeddf 1990 a bod cwestiwn yn codi ynghylch a yw'r materion yr honnir eu bod yn golygu torri rheol gynllunio yn ddatblygiad Atodlen 1 neu'n cynnwys datblygiad Atodlen 1, neu'n ddatblygiad Atodlen 2 neu'n cynnwys datblygiad Atodlen 2, rhaid i'r arolygydd atgyfeirio'r cwestiwn hwnnw at Weinidogion Cymru.

(3) Cyn cael cyfarwyddyd sgrinio ni chaiff yr arolygydd benderfynu ar gais y tybir ei fod wedi ei wneud yn rhinwedd yr apêl o dan adran 174 o Ddeddf 1990 ("y cais tybiedig") ac eithrio i wrthod y cais hwnnw.

(4) Pan atgyfeirir cwestiwn o dan baragraff (2), rhaid i Weinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd sgrinio o fewn 21 o ddiwrnodau yn dechrau â'r dyddiad yr atgyfeiriwyd y cwestiwn neu unrhyw gyfnod hwy y gwneir yn ofynnol yn rhesymol, heb fod yn fwy na 90 o ddiwrnodau o'r dyddiad y mae'r person sy'n gofyn am y cyfarwyddyd yn cyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan reoliad 46(2)(c).

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried, oherwydd amgylchiadau eithriadol sy'n ymwneud â'r datblygiad arfaethedig, nad yw'n ymarferol iddynt fabwysiadu cyfarwyddyd sgrinio o fewn y cyfnod o 90 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad y gofyniad, caiff Gweinidogion Cymru estyn y cyfnod hwnnw drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person a ofynnodd am y cyfarwyddyd.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru ddatgan mewn unrhyw hysbysiad o dan baragraff (5) y rhesymau sy'n cyfiawnhau'r estyniad a dyddiad disgwyliedig y penderfyniad.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o unrhyw gyfarwyddyd sgrinio a wneir yn unol â pharagraff (4) at yr arolygydd.

(8) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried nad oes digon o wybodaeth wedi ei darparu i wneud cyfarwyddyd sgrinio, rhaid iddynt roi hysbysiad i'r ceisydd a'r awdurdod a gyflwynodd yr hysbysiad rheoliad 45 am y materion y mae angen gwybodaeth ychwanegol mewn cysylltiad â hwy, ac mae'n rhaid i'r wybodaeth honno y gofynnir amdani felly gael ei darparu gan y ceisydd o fewn unrhyw gyfnod rhesymol a bennir yn yr hysbysiad.

(9) Os bydd apelydd sydd wedi cael hysbysiad o dan baragraff (8) yn methu â chydymffurfio â gofynion yr hysbysiad hwnnw mae'r apêl, i'r graddau y mae'n apêl sail (a), yn methu ar ddiwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.